

No.

PWYLLGOR DEDDF YSTÂD YR EGLWYS YNG NGHYMRU

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf, 2024.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd M.R. Wilson (Cadeirydd); Cynghorydd P. Drake (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr C.E.A. Champion, J.E. Charles, H.C. Hamilton a M.J. Hooper

292 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

293 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Chwefror, 2024 fel cofnod cywir.

294 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

295 CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL 2024/25 CYFRAN 1 (CAC) -

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Gweithredol Cyfrifeg, a gadarnhaodd fod cyllideb o £60,000 wedi'i neilltuo ar gyfer rhoi grantiau yn ystod 2024/25.

Cafodd swm cyllideb nas dyrannwyd o £25,325 ei gario drosodd o 2023/24, o'r £23,070 hwn ar gael i'w ddyrannu yn ystod 2024/25 gyda chyfanswm y gronfa wrth gefn anghyfyngedig yn £161,870 ar 31 Mawrth, 2024.

Cynigiwyd y dylid defnyddio £20k o'r swm hwn yn 2024/25 ar gyfer grantiau ac felly gosodwyd cyfanswm y gyllideb grantiau ar gyfer 2024/25 ar £80k erbyn hyn.

Ar sail treial roedd yr uchafswm grant y gellid ei ddyfarnu wedi cynyddu o £5,000 i £10,000.

Argymhellwyd grantiau gwerth cyfanswm o £16,067.50 fel y nodir yn Atodiad A i'w hadrodd fel rhan o'r adroddiad.

No.

Roedd gweddill swm o £63,932.50 ar gael i'w ddyrannu yn ystod 2024/25.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog, cododd Aelodau'r Pwyllgor y pwyntiau canlynol:

- Yn y gorffennol, roedd y Pwyllgor wedi bod yn amharod i ariannu costau cyflogau prosiectau, er nad oedd costau refeniw wedi'u gwahardd gan ddibenion elusennol y gronfa (Atodiad B), ac roedd angen iddynt hefyd fod yn ofalus ynghylch ariannu prosiectau parhaus;
- Byddai mwy o wybodaeth yn cael ei chroesawu ynghylch sut y byddai'r arian y gofynnwyd amdano yn cael ei ddefnyddio, ac mewn perthynas â chynaliadwyedd prosiect Cymdeithas Lesiant Merched;
- Gall cyfarfod nesaf y Pwyllgor fod yn amser rhy hir i'r ymgeisydd aros am benderfyniad.

Mewn ymateb i sylwadau a chwestiynau Aelodau'r Pwyllgor, rhoddodd y Swyddog y wybodaeth ganlynol:

- Y gellid cael sgysiau gyda Chyngor Caerdydd a'r Ymgeisydd ynghylch y potensial i gynyddu'r swm y gofynnodd Cymdeithas Gyfeillgar i Ferched, ac y byddai'r dyfarniad uchaf o £10k yn bosibl ar gyfer y Cais hwn;
- Bwriadwyd i'r arian y gwnaed cais amdano yng nghais y Gymdeithas Lesiant Merched gyfrannu at gostau fel ffioedd llogi lleoliadau a chost teithiau preswyl, yn ogystal â chyfraniadau tuag at gostau staffio. Roedd gwirfoddolwyr hefyd yn helpu i redeg y prosiect;
- Gellid darparu gwybodaeth ychwanegol sy'n ofynnol gan y Gymdeithas Lesiant Merched i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, a gellid dirprwyo cyfrifoldeb i'r Aelodau hynny gymeradwyo'r Cais ar sail yr wybodaeth ychwanegol hon.

Gan na chafwyd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y ceisiadau am gymorth grant, fel y nodir yn Atodiad A yr adroddiad gan Gyngor Cymuned Dinas Powys; Eglwys St. Canna, Llangan; a Chlwb Tennis Creigiau, i'w cymeradwyo.

(2) Cymeradwyo'r cais am gymorth grant, fel y nodir yn Atodiad A o adroddiad y Gymdeithas Gyfeillgar i Ferched, yn amodol ar gael rhagor o wybodaeth gan yr Ymgeisydd mewn perthynas â chynaliadwyedd y prosiect, a bod hyn yn cael ei ystyried yn ddigonol i cymeradwyo'r cais gan Gadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaeth ddilynol yn y cyfarfod.

(2) Dyfarnu cyllid y cais ar ôl darparu gwybodaeth foddhaol yn gyntaf i ddangos cynaliadwyedd y prosiect, a chymeradwyaeth y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd.